# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CBAC Cyfrifiadureg UG Lefel 3



**Yn gryno**

Mae’r cwrs yn cynnig cyfle i ddysgu am greu cymwysiadau meddalwedd a datblygu sgiliau i ddatrys problemau ynghyd â dealltwriaeth o egwyddorion a chysyniadau sylfaenol Cyfrifiadureg.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...ydych am gyfuniad o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol

...rydych chi’n mwynhau gweithio â phobl eraill

...rydych chi’n dwlu ar fod yn greadigol

...rydych chi’n meddwl yn ddadansoddol ac rydych chi’n mwynhau datrys problemau

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn ymdrin â dealltwriaeth o systemau cyfrifiadur, yn cynnwys meddalwedd, caledwedd a chyfathrebiadau data, prif egwyddorion dadansoddi systemau, rhesymeg, algorithmau a chynrychioli data.

Lefel UG:

Uned 1 - Hanfodion Cyfrifiadureg
Uned 2 - Rhaglennu Ymarferol i Ddatrys Problemau

Safon Uwch:

Uned 3 - Rhaglennu a Datblygu Systemau
Uned 4 - Pensaernïaeth Cyfrifiadur, Data, Cyfathrebu a Chymwysiadau
Uned 5 - Datrysiad wedi'i Raglennu i Broblem

Asesir drwy dasgau gwaith cwrs ymarferol ac arholiad yn y flwyddyn UG ac U. Byddwch yn ennill cymwysterau mewn:

Cyfrifiadureg Lefel UG
Cyfrifiadureg Safon Uwch
Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, bydd angen o leiaf 5 cymhwyster TGAU, gradd C neu uwch, gan gynnwys gradd B mewn Mathemateg/Mathemateg Rifedd neu radd A ar gyfer TGAU mewn Cyfrifiadureg.

Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gradd mewn Cyfrifiadureg, neu bwnc cysylltiedig, megis Mathemateg, Ffiseg, Peirianneg neu unrhyw gwrs Gwyddoniaeth mewn Addysg Uwch.
Prentisiaethau mewn Cyfrifiadureg
Cyflogaeth yn y sector TG

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i chi wneud cyfraniadau ariannol at gostau teithio ymweliadau addysgol.